

## DAVIS (DAVIES), RICHARD (1658 - 1714); gweinidog Annibynnol

**Enw:** Richard Davis  
**Dyddiad geni:** 1658  
**Dyddiad marw:** 1714  
**Priod:** Rosamond Davis (née Williams)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Gŵr o Sir Aberteifi, a fu ar y cychwyn yn ysgolfeistr yn Llundain, ond a urddwyd yn 1689 yn weinidog ar eglwys Annibynnol Rothwell (seinier ' Rowel'), Swydd Northampton. Achosodd ei weinidogaeth yno ddadlau mawr ymysg Ymneilltuwyr : (1) cyhuddid ef o bregethu athrawiaethau Antinomaid; (2) cas gan ei gydweinidogion mwy academaidd eu naws oedd ei ddulliau 'diwygiadol' wrth bregethu, a'r defnydd helaeth a wnâi o bregethwyr teithiol llyeg; (3) bu ei gyndynrwydd ym mhlaid y ffurfiwydoraeth 'gynulleidfaol,' a'i elyniaeth at y 'classis' Presbyteraidd, yn gryn symbyliad i'r Annibynwyr Seisnig i ymado â'r ' Undeb ' a wnaethpwyd yn 1690 rhwng Presbyteriaid ac Annibynwyr. Un o feirniaid pwysicaf Davis oedd **Daniel Williams**. Yn 1692, ataliodd y ' Common Fund ' ei chymorth ariannol rhag Davis, h.y. fe'i bwriwyd allan o'r ' Undeb.' Bu farw 10 Medi 1714. [Ar ei feddfaen yn eglwys blwyf Rothwell rhoir dyddiad ei farw yn 11 Medi a'i oed yn 56.] Ei olynydd yn Rothwell oedd **Mathias Maurice**.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

R. W. Dale, *History of English Congregationalism* (Llundain 1907), 479-80

*Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690â€“1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 184-7*

D. M. Lewis yn *Y Cofiadur*, 1925, 31-4

*Transactions of the Congregational Historical Society.*, ii, 128; vii, 224, ac yn bennaf vi, 389

Jeremy Owen, *Golwg ar y Beiau y sydd yn yr hanes a brintwyd ynghylch pedair neu bum mlynedd i nawr, ym mherthynas i'r rhywygiad a wnaethbwyd yn Eglwys Henllan â€*; 1707, 1708, 1709 (Caerfyrddin 1732-3) (ailargraffiad Prifysgol Cymru, 1950)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 18638552

Wikidata: Q18922208

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). DAVIS (DAVIES), RICHARD (1658 - 1714); gweinidog Annibynnol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-RIC-1658>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government